# Trosolwg

## Cyfeiriadau Beiblaidd

**Job 12:7-10 (BCND)**

'Ond yn awr gofyn i'r anifeiliaid dy ddysgu, ac i adar y nefoedd fynegi i ti, neu i blanhigion y tir dy hyfforddi, ac i bysgod y môr dy gyfarwyddo. Pwy na ddealla oddi wrth hyn i gyd mai llaw'r ARGLWYDD a'u gwnaeth? Yn ei law ef y mae einioes pob peth byw, ac anadl pob un meidrol.'

## Cyflwyniad

Rydyn ni'n addoli Duw sy'n caru'r Ddaear a greodd ac yn ein galw i ofalu amdani. Er bod gweithredu ar y cyd fel eglwys yn bwysig, mae cyfrifoldeb unigol arnom hefyd i weithredu yn ein bywydau beunyddiol, fel ein bod yn camu'n ysgafn ar y Ddaear, ac yn defnyddio'n lleisiau i godi llais dros fyd natur. Mae'r categori hwn yn ymwneud â'n heglwysi yn annog pobl i weithredu fel unigolion ac aelwydydd – gan wneud gofal am y cread yn rhan annatod o'n bywydau beunyddiol, fel gweithred o addoliad ac ufudd-dod i Dduw, ac wrth i ni dyfu fel disgyblion iddo.

Oddi mewn i'r categori hwn, rydym ni'n annog yr eglwys i fynd ati i addysgu a dylanwadu ar aelodau unigol o'r eglwys, a chymunedau ehangach, ynghylch y camau gallan nhw eu cymryd a'r dylanwad sydd ganddynt. Mae Andy Atkins, Prif Weithredwr A Rocha UK ac ymgyrchydd gydol oes, yn ein herio i ystyried ein dealltwriaeth o'r cysyniad o ffordd o fyw:

> *Mae'n bryd i ni ddiwygio'r diffiniad cul o 'ffordd o fyw'. Nid ein harferion prynu, ein dillad, ein bwyd a'n penderfyniadau teithio yw'r unig ffyrdd mae Duw wedi'u rhoi i ni i weithredu dros ei greadigaeth. Mae defnyddio ein hamser a'n 'llais' i ymgyrchu hefyd yn ymddygiad, yn ddewis ynghylch ffurf a chynnwys ein bywydau beunyddiol; ac mae'r cyfuniad o'r ddau yn llawer mwy pwerus na'r naill neu'r llall ar ei ben ei hun.*

## Terminoleg

Er cysondeb, mae'r arolwg yn defnyddio dwy brif ffordd o gyfeirio at gonsyrn a gofal am y Ddaear. Mae cyfeirio at 'y greadigaeth' a 'gofal am y cread' yn amlygu ein rhyngddibyniaeth ar y cartref a roddodd Duw i ni, a'n cyfrifoldeb amdano. Mae cyfeirio at argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn arwydd ein bod yn cydnabod bod rhaid gweithredu ar frys. Ar ben hynny, defnyddir y term 'materion amgylcheddol' i gyfeirio at y sbectrwm eang o broblemau rydyn ni'n eu hwynebu'n lleol ac yn fyd-eang.

## Ymrwymiad a chysylltiad â Pholisi Amgylcheddol

Ar ddechrau pob categori mae'r arolwg Eco-Eglwys yn gofyn i'ch eglwys ddangos ymrwymiad. Mae cwestiwn cyntaf y categori Ffordd o Fyw yn nodi:

*'Mae gan ein heglwys strategaeth neu gynllun i hybu patrymau defnydd egwyddorol sy'n ymwybodol o'r amgylchedd, gan unigolion ac aelwydydd.'*

Gall gweledigaeth neu ddatganiad cenhadaeth fod yn fan gwych i gydnabod ein rôl fel Cristnogion i ofalu am y Ddaear a'i gwarchod. Efallai byddwch yn dewis creu datganiad fel hwn i ddangos eich ymrwymiad ac i fod yn sylfaen ar gyfer cynllun.

> *'Rydym yn cydnabod y gallwn gael effaith ar y byd trwy'r dewisiadau sydd ar gael i ni a'n defnydd o arian ac adnoddau. Byddwn ni'n ymdrechu i gefnogi ein teulu yn yr eglwys a'r gymuned ehangach i gyflawni newid cadarnhaol a gofal am Ddaear Duw. Byddwn yn ceisio annog cymuned ein heglwys a'r tu hwnt i fyw'n dyner ar y Ddaear a bod yn barod i herio anghyfiawnder systemig.'*

Gallai'r datganiad hwn gael ei gynnwys yn eich Polisi Amgylcheddol ar eich gwefan. Mae Polisi Amgylcheddol yn ffordd wych i'ch eglwys gyflwyno'r hyn rydych chi'n ei gydnabod ac amlinellu'r ymrwymiadau rydych chi'n eu gwneud.

Edrychwch ar ein taflen wybodaeth gyfatebol ar Greu Polisi Amgylcheddol a chynllun gweithredu Sero Net, a'r polisïau enghreifftiol i'w golygu y gallwch eu haddasu ar gyfer eich eglwys. Cewch hyd i'r dogfennau hyn yn y categori Adeiladau ac Ynni.

## Themâu Ffordd o Fyw

Mae'r categori Ffordd o Fyw yn cwmpasu'r themâu canlynol:

### Thema 1: Dylanwad

- Rhannu gwybodaeth
- Ymwneud ag ymgyrchu

### Thema 2: Ôl-troed carbon

- Ôl-troed carbon personol
- Defnydd o ynni

### Thema 3: Dewisiadau personol

- Bwyd
- Trafnidiaeth
- Cyllid
- Defnydd o nwyddau a gwasanaethau
- Gwastraff

### Thema 4: Byd Natur

- Gwerthfawrogi natur a phrofiad ohono
- Gofalu am natur a'i ddiogelu

## Sylwadau ychwanegol

Ar ddiwedd pob categori yn yr arolwg mae cyfle i chi nodi sylwadau ychwanegol. Gallwch ddefnyddio'r lle yma i ymhelaethu ar unrhyw rai o'ch atebion, gan gynnwys lle gwnaethoch chi roi tic wrth 'arall', ac unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig â'r categori hwn yn yr arolwg.

## Beth yw ôl-troed carbon?

Mae 'ôl-troed' carbon yn cyfrifo faint o allyriadau carbon rydych chi'n eu cynhyrchu, fel eglwys neu fel unigolyn. Mae ôl-troed carbon nid yn unig yn ystyried yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio i wresogi a goleuo eich cartref, ond hefyd yn cynnwys teithio a ble rydyn ni'n buddsoddi ein harian, p'un a oes gennym ni symiau bach neu fawr. Mae'n ddefnyddiol deall eich ôl-troed carbon er mwyn gallu gostwng eich allyriadau carbon. Mae nifer o gyfrifwyr ôl-troed carbon ar gael am ddim i unigolion ac aelwydydd, er enghraifft Cyfrifydd Ôl-troed Carbon WWW ac offeryn carbon 360° Stiwardiaid yr Hinsawdd. Bydd cwblhau hyn am y tro cyntaf yn fesur sylfaen pwysig, a thrwy gyfrifo eich ôl-troed carbon bob blwyddyn gallwch chi gymharu a gweld y carbon rydych chi'n ei gynhyrchu yn dechrau gostwng.

## Adnoddau a gwybodaeth

Cewch hyd i'r holl adnoddau Eco Church ar ein gwefan, yn ogystal ag adnoddau sy'n ymwneud yn benodol â'r categori Ffordd o Fyw.

**Bwyd**

Adnoddau LOAF Cristion Gwyrdd

**Arolwg gofal am y cread**

Mae'r cynllun Gofal am y Cread yn eitha tebyg i Eco-Eglwys i aelwydydd. Defnyddiwch yr arolwg ar-lein i ystyried saith agwedd ar eich ffordd o fyw a gweithio at ddyfarniadau. Mae'r cynllun yn cynnig syniadau ar gyfer y camau nesaf, ac yn cydnabod cynnydd.

**Cyllid egwyddorol**

Mudiad Just Money
Adnoddau Cristion Gwyrdd – Pa mor Wyrdd yw eich Arian

**Gwerthfawrogi byd natur, cael profiad ohono a'i ddiogelu**

RHS – Creu gardd sy'n croesawu bywyd gwyllt
Wildlife Trust – Sut mae cychwyn gardd bywyd gwyllt
National Trust – Sut mae gwneud eich gardd yn hafan i fywyd gwyllt
RSPB – Cynllunio gardd i fywyd gwyllt
Esiampl tyfu llysiau gan aelod o Gymuned Cristion Gwyllt (Wild Christian)
Wild About Gardens
Roots and All

A UK ROCHA Caring for God's Earth